# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 13EG AWST, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 5 Awst 2025)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans

Gareth Tudor Jones

Gwynfor Owen (Cadeirydd)

Meryl Roberts (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 7

**2:00pm**

Bella Pizza, 19 Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RF.

I ystyried y cais.

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 8 - 13

**3:15pm**

Soch, Stryd Fawr, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7DS

I ystyried y cais.

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8 Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

9 Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **13/08/2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BELLA PIZZA,<br>19 TWLL YN Y WAL, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1RF** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Bella Pizza, 19 Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RF. Mae'r cwmni yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer busnes bwyd parod i'w gario allan.

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â darparu Lluniaeth Hwyr yn y Nos oddi ar yr eiddo dydd Llun-dydd Iau 23:00-00:00, dydd Gwener-dydd Sadwrn 23:00-02:00, dydd Sul 23:00-00:00.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedig:

**Oriau Agor:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener: | 23:00 | - | 02:00 |
| Dydd Sadwrn: | 23:00 | - | 02:00 |

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos: Tu allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau: | 23:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener: | 23:00 | - | 02:00 |
| Dydd Sadwrn: | 23:00 | - | 02:00 |

## 2. Mesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- 16 camera mewnol ac allanol sy'n weledol iawn gydag arwyddion yn hysbysu bod TCC ar waith er mwyn lleihau'r risg o ymddygiad gwael.
- Staff wedi'u hyfforddi ar sut i ymdrin â chwsmeriaid annifyr/meddw ac afreolus er mwyn cynnal amgylchedd tawel.
- 2 llifolau mawr ar flaen yr adeilad i'w cadw ymlaen yn ystod oriau agor er mwyn goleuo blaen y siop yn effeithiol.
- Staff i sicrhau bob amser nad yw cwsmeriaid yn ymgynnull y tu allan i'r siop a gofyn i'r holl gwsmeriaid symud oddi yno unwaith y byddant wedi derbyn eu harchebion.
- Y staff i lanhau ar hyd y stryd ar ôl cau, gan ofalu am y stryd er mwyn i'r preswylwyr ddeffro a gweld aac wrth mgylchedd glân.

**Gweler Rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU A GYFLWYNWYD |
|---|---|
| Iechyd yr Amgylchedd | Gwrthwynebiad |
| Aelod o'r cyhoedd | Gwrthwynebiad |
| Cynllunio | Sylwadau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad - sylwadau |
| Cyngor Tref Caernarfon | Llythyr yn cefnogi'r cais |

### 3.1 Gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd

**3.2** Mae prif bryder Iechyd yr Amgylchedd (Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd) yn ymwneud ag agosrwydd yr eiddo at adeiladau preswyl sy'n ffinio'n uniongyrchol â'r safle. Er bod eiddo trwyddedig arall gerllaw (gan gynnwys tafarndai), noda'r Gwasanaeth bod yn rhaid ystyried yr effaith cronnus. Gallai cyflwyno eiddo bwyd i'w gario allan yn hwyr yn y nos gynyddu'r prysurdeb a'r gweithgarwch yn hwyr yn y nos, yn enwedig sŵn gan gwsmeriaid sy'n gadael neu'n ymgynnull y tu allan i'r eiddo,sc wrth ddanfon a chasglu bwyd

**3.3** Yn ogystal, maent yn pwysleisio, unwaith y bydd cwsmeriaid yn gadael yr eiddo, mai ychydig iawn o reolaeth sydd gan yr ymgeisydd dros y sŵn cysylltiedig a allai darfu ar breswylwyr. Mae'r amod cynllunio presennol yn gofyn i'r eiddo gau am 23:00, gydag unrhyw oriau agor hwyrach yn cael eu caniatáu dim ond o dan Rybuddion Digwyddiadau Dros Dro.

**3.4** Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu unrhyw fanylion penodol am y system awyru ac echdynnu, a allai hefyd gyfrannu at bryderon am sŵn neu arogleuon. Mae'r swyddog yn ei sylwadau yn nodi bod y busnes wedi torri amodau caniatâd cynllunio ôl-weithredol cyfredol a ganiatawyd yn 2024: "Newid defnydd ôl-weithredol o siop A1 i ddefnydd cymysg A1/A3", C24/0577/14/LL sy'n datgan "Rhaid cyflwyno manylion unrhyw unedau echdynnu, gwyntyll neu gyfarpar cysylltiedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am gymeradwyaeth cyn eu gosod os yw'r safle yn newid perchnogaeth. Rhaid gosod y cyfarpar a'i ddefnyddio yn unol â'r manylion a gytunwyd."
Yn gyffredinol, cred y Gwasanaeth y gallai caniatáu oriau agor rheolaidd tan 2:00am gynyddu lefelau sŵn ac aflonyddwch yn sylweddol mewn ardal breswyl sydd fel arall yn dawel, ac y gallai danseilio'r amcan o atal niwsans cyhoeddus.

**Mae copi cyflawn o wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd wedi'i atodi.**

### 3.5 Gwrthwynebiad gan Aelod o'r cyhoedd

Derbyniwyd gwrthwynebiad mewn perthynas â'r cynnig i ymestyn oriau agor busnes bwyd i'w gario allan wedi'i leoli oddi mewn i waliau hanesyddol tref Caernarfon.

Mae'r gwrthwynebydd yn codi pryderon am y cynnydd posib mewn aflonyddwch ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn hwyr yn y nos, gan nodi bod aflonyddwch ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol eisoes yn yr ardal. Nodir bod risgiau i ddiogelwch y cyhoedd o ganlyniad i'r llwybr cul a phrysur i gerddwyr wrth yr eiddo, ac y gallai fod problemau mynediad petai angen i'r gwasanaethau brys fynd yno yn ystod y nos. Mae'r gwrthwynebydd yn nodi y gallai'r datblygiad gael effaith negyddol ar leoliad hanesyddol, gan waethygu'r problemau presennol gydag ysbwriel.
Mae'r gwrthwynebydd yn awgrymu, os caniateir y cais, y dylid gosod amodau, gan gynnwys darparu staff diogelwch a rheoli ysbwriel yn gyson.
**Mae copi cyflawn o'r gwrthwynebiad wedi'i atodi.**

**3.6 Sylwadau Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd**

Barn gychwynnol y Gwasanaeth Cynllunio oedd gwrthwynebu'r estyniad arfaethedig i'r oriau agor, gan fod yr eiddo ar hyn o bryd yn destun amod cynllunio yn cyfyngu gweithredu rhwng 08:00 a 23:00, dydd Llun i ddydd Sul. Adeg eu hymateb, roedd cais cynllunio i ddiwygio'r oriau hyn wedi'i gyflwyno ond nid oedd yn ddilys eto. Ers hynny mae'r cais wedi'i ddilysu ac yn cael ei ystyried. Er hyn, dylid nodi mai'r oriau y gofynnwyd amdanynt o dan y cais cynllunio yw estyniad tan 01:00am yn unig.

**3.7 Sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru**

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cais. Er bod Bella Pizza wedi'i leoli ar stryd brysur yn agos at nifer o eiddo trwyddedig, nid yw'r Heddlu wedi adrodd am unrhyw dystiolaeth o droseddau nac anrhefn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r busnes.

**3.8 Sylwadau Cyngor Tref Caernarfon**

Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn cefnogi'r cais, gan gydnabod nad yw'r eiddo yn gwerthu alcohol nac yn chwarae cerddoriaeth, ac yn weithredol yn annog pobl i beidio â pharcio ar y stryd. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi dangos ymrwymiad i fod yn gymydog cyfrifol drwy fesurau megis monitro TTC a glanhau'r stryd yn gyson. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nad yw arwyddion y siop yn gyson ag edrychiad cyffredinol y stryd.

**3.9 Ymateb yr ymgeisydd i'r sylwadau**

Mewn ymateb i wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd, cynigiodd yr ymgeisydd leihau'r oriau gweithredu o un awr, a chadarnhau bod y cais cynllunio yn gofyn am ganiatâd i weithredu tan 1:00am. Felly, mae hyn yn gwrthdaro â'r cais cynllunio presennol, nad yw'n caniatáu gweithredu ar ôl 2:00am.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, yn enwedig y pryderon am y posibilrwydd y gallai ymestyn oriau agor y busnes bwyd i'w gario allan waethygu'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol presennol yn y stryd drwy ddenu grwpiau o bobl ifanc a'u cadw yno'n hwyrach. Petai'r Pwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r cais, argymhellir ymhellach y dylid cynnwys amod ar y drwydded i ddarparu swyddogion diogelwch ar y drws, a bod y caniatâd yn unol â thelerau'r cais cynllunio cysylltiedig.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **13ain O Awst 2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – SOCH, STRYD FAWR, ABERSOCH, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 7DS** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo ar gyfer Soch, Stryd Fawr, Abersoch, Pwllheli, LL53 7DS, gan The Soch (NW) Ltd i ymestyn oriau Trwyddedu

Mae Trwydded Eiddo yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r ymgeisydd yn ceisio caniatâu i amrywio'r drwydded i ymestyn oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedig ac ychwanegu Lluniaeth yn Hwyr y Nos, Dan do ac Awyr Agored, mae'n debygol na fydd yr oriau y gwneir cais amdanynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, ond yn manteisio ar adegau prysura tymhorau.

1.1 Gofynnir i ymestyn oriau agor hyd at 00:30 Dydd Sul hyd at nos Iau ac 01:30 Nos Wener a nos Sadwrn.
1.2 Gofynnir i ymestyn oriau gwerthu cyflenwi alcohol, ar ac oddi ar y eiddo, hyd at 00:00 Nos Sul hyd at nos Iau, ac 01:00 nos Wener ac Nos Sadwrn.
1.3 Gofynnir am gael cynnal cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio hyd at 00:30 Dydd Sul hyd at Nos Iau, ac1:00 ar nosweithiau y penwythnos.
1.4 Gofynnir i ychwanegu Lluniaeth yn hwyr y nos, dan do ac awyr agored, 00:00 Nos Sul hyd at Nos Iau, ac 01:00 nosweithiau y penwythnos Nos Wener ac Nos Sadwrn.
1.5 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
1.6 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Eiddo Presenol/Current Premises Licence** | | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** | |
|---|---|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | | | |
| Dydd Sul/Sunday | 09:00 - 00:00 | Dydd Sul/Sunday | 08:00 – 00:30 |
| Dydd Llun/Monday | 09:00 – 00:00 | Dydd Llun/Monday | 08:00 – 00:30 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 09:00 – 00:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 – 00:30 |

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 00:00 | Dydd Mercher/Wednesday 08:00 – 00:30<br>Dydd Iau/Thursday 08:00 – 00:30<br>Dydd Gwener/Friday 08:00 – 01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 – 01:30 |
| **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites** | |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 00:00 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 – 01:00<br><br>**Mi fydd y bar tu allan yn cau am 23:00** |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 00:00 | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br><br>**Ymgeisydd wedi cytuni i’r Cerddoriaeth tu allan i orffen 22:00 Dydd Sul hyd at Dydd iau ac 22:30 ar nos Wener ac nos Sadwrn** |

| | |
|---|---|
| **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 00:00 | **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br><br>**Ymgeisydd wedi cytuni i'r Cerddoriaeth tu allan i orffen 22:00 Dydd Sul hyd at Dydd iau ac 22:30 ar nos Wener ac nos Sadwrn** |
| **Lluniaeth yn Hwyr y Nos: Dan do ac Awyr Agored: /Late night refreshments: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday<br>Dydd Llun/Monday<br>Dydd Mawrth/Tuesday<br>Dydd Mercher/Wednesday<br>Dydd Iau/Thursday<br>Dydd Gwener/Friday<br>Dydd Sadwrn/Saturday | **Lluniaeth yn Hwyr y Nos: Dan do ac Awyr Agored: /Late night refreshments: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 23:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday 23:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 – 01:00<br><br>**Ymgeisydd wedi cytuni fod y safle allanol yn cau 23:00 Nos Sul hyd at nos Iau ac 00:00 nos wener ac nos sadwrn** |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff ar deddfwriaeth trwyddedig
- Cadw cofrestr o methiant gwerthu alcohol fydd ar gael i swyddogion awdurdodwyd ac yr Heddlu
- Teledu Cylch, yn cael i cadw am 31 diwrnod ac ar gael i swyddogion wedi eu hawdurdodi a'r yr heddlu

- Mesurau i atal trosedd ac anrhefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd a diogelwch plant ac oedolion bregus
- Cydweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill
- Cynnal prosesau gwirio oedran a sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar brosesau gwirio oedran
- Ni fydd plant o dan 18 yn cael aros ar yr eiddo ar ôl 21.00
- Cynnal polisi Her 25

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Clerc Cyngor Cymuned Llanengan | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd | E-bost – gwrthwynebiad |
| Gwrthwynebiad gan y Cyhoedd | 3 gwrthwynebiad pryder Atal troseddu ac anhrefn, niwsans cyhoeddus |

### 3.1 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r eiddo yma wedi gweithredu fel Bwyty yn y flynyddoedd diwethaf, yn adnabod fel (Fresh) a heb cael unrhyw bryderon.
Mae'r adeilad wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol ac nawr mae'n fusnes newydd o'r enw Soch. Ers i'r adnewyddiad ddod i ben, mae Soch wedi gweithredu gwerthiant alcohol dan Rybudd Digwyddiad Dros Dro sawl gwaith heb unrhyw broblem nac unrhyw alw ar ein gwasanaethau. Does gan Heddlu Gogledd Cymru ddim gwrthwynebiadau i'r cais hwn

### 3.2 Sylwadau Gwasaneth Tan

Nid yw'r Awdurdod Tân yn rhoi unrhyw sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu am y cais

### 3.3 Clerc Cyngor Cymuned Llanengan

Dim gwrthwynebiad gan yr Aelodau i'r cais uchod

**3.4 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd**

Argymelliad a cyngor gan Swyddog Iechyd Amgylchedd yn nodi na fydd gwrthwynebiad os yw'r ymgeisydd yn derbyn ac yn gweithredu y cynllun rheoli sŵn sydd wedi ei gymeradwyo.

Ar argymelliad a cyngor gan Swyddog Iechyd Amgylchedd mae'r ymgeisydd wedi cytuno fel a nodir -

. **Cerddoriaeth tu mewn (Byw a wedi Recordio),**

- Oriau a ganiateir: Hyd at 01:00 (Gwener–Sadwrn), 00:00 (Sul–Iau), yn unol â'r cais am drwydded safle.
- Rheoli Lefel y Sŵn: Staff yn monitro lefel y sŵn gan addasu fel y bo angen. Bydd lefel sŵn y gerddoriaeth yn cael ei gostwng 15 munud cyn cau, ond nid oes gofyniad 'tawelu' pendant.
- Rheoli niferoedd: wedi fonitro gan staff a'i addasu yn ôl yr angen.
- Drysau a Ffenestri: I'w cadw ar gau yn ystod cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi ei recordio oni bai am fynediad/ mynd allan.
- Lleoliad y Seinydd: Seinyddion wedi'u gosod oddi wrth y ffenestri a'r drysau allanol.
- Monitro: Mae staff yn cynnal gwiriadau perimedr rheolaidd yn ystod oriau brig.
- Rhwystrau acwstig i fod yn eu lle (llenni) pe bai pryderon yn cael eu codi.
- Cerddoriaeth cefndirol yn unig pan and oes band neu adloninat arall.

**Cerddoriaeth y tu allan**

- Defnydd: Caniateir digwyddiadau cerddoriaeth awyr agored achlysurol tan 22:30 (Gwener-Sadwrn), 22:00 (Sul-Iau).
- Hysbysiad: Cymdogion i gael eu hysbysu ar gyfer digwyddiadau awyr agored wedi'u trefnu.
- Cyfeiriadeddd Seinyddion: Ddm I'w cyferio tuag at eiddo preswyl.
- Rheoli: Staff wedi'u neilltuo i fonitro ac ymateb i faterion yn brydlon.

**Lloches Ysmygu a Mannau Eistedd Allanol**

- Oriau Defnydd: Ar agor tan 23:00 Sul-Iau, 00:00 Gwener a Sadwrn.

- Dodrefn: Byrddau a chadeiriau awyr agored i gael traed rwber i leihau sŵn.
- Goruchwyliaeth: Mae staff yn monitro ardaloedd ac yn atgoffa gwesteion i fod yn barchus. Mae arwyddion hefyd yn atgyfnerthu hyn.

Mae copi llawn o'r cynllun rheoli i'w weld ynghlwm

**3.5 Sylwadau a Gwrthwynebiad gan y cyhoedd**

Cyflwynwyd sylwadau ar sail pryderon y byddai’r amcan trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus yn cael ei danseilio oherwydd y bwriad i gynnal gweithgareddau trwyddedig yn hwyrach na’r hyn a nodir ar y Drwydded presennol.

Mae preswyliwr yn bryderus am y sŵn eisoes ac yn teimlo buasai caniatáu ymestyn yr oriau yn creu niwsans cyhoeddus ac yn gosod cynsail ar gyfer busnesau eraill.

Nodir fod ceisiadau digwyddiad dros dro wedi bod mewn lle dros yr wythnosau diwethaf, cadarnheir hefyd fod cwynion sŵn wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan breswylydd cyfagos ynglŷn a cherddoriaeth uchel, cwsmeriaid yn gweiddi a bod yn swnllyd wrth adael yr eiddo.

Mae copi llawn o bryderon a gwrthwynebiad gan y cyhoedd ac preswylwyr cyfagos i'w weld ynghlwm

**4. ARGYMHELLIAD**

**Mae’r ymgeisydd wedi darparu adroddiad rheoli sŵn, ond fe ddylid cwestiynu gallu yr ymgeisydd i reoli niwsans cyhoeddus oherwydd fod cwynion sŵn wedi bod yn cael eu derbyn yn ddiweddar, er fod Cynllun rheoli sŵn wedi ei gyflwyno.**

**Os yw’r Pwyllgor yn caniatáu y cais, argymhellir cyflwyno amodau pellach i’r hyn a gytunwyd yn y Cynllun rheoli sŵn er mwyn sicrhau nad yw yr amcanion trwyddedu yn cael eu tanselio. Mae amodau sŵn ychwanegol wedi eu cynnig gan Iechyd Amgylchedd i’w hychwanegu at y Cynllun Rheoli sŵn arfaethedig, mewn ymateb i’r cwynion sŵn diweddar .**